# NOLB Duffryn Project Fund – Interventions and Criteria

## NOLB Duffryn Project Fund – Grant Criteria March-April 2026

This grant programme supports Newport City Council's commitment to reducing poverty, inequality and exclusion through early intervention, prevention and place-based action.

In October 2025, Cabinet approved a £500,000 No One Left Behind pilot project to support areas of the city that have missed out on previous regeneration and opportunity, with the Duffryn estate in the Tredegar Park ward chosen as the first pilot locality due to evidence of high deprivation.

The No One Left Behind (NOLB) Duffryn Project Fund aims to support voluntary, community and social enterprise (VCSE) organisations delivering impactful, community-focused interventions that reduce poverty, improve skills, create pathways into employment, and enhance wellbeing for residents of Duffryn.

Funding is available for projects that align with NOLB principles, demonstrate clear community benefit, and show strong potential for long-term positive outcomes.

**Funding Available**

Minimum grant: £1,000

Standard maximum grant: £30,000

Exceptional circumstances: Applications above £30,000 may be considered where:

the project demonstrates significant, evidenced need in Duffryn

the proposal offers high-impact outcomes not achievable at lower cost

the applicant(s) can demonstrate strong organisational capacity and/or

the project involves multi-partner collaboration and wider reach

Applicants seeking over £30,000 must clearly outline why the additional funding is essential and provide a detailed justification.

**Eligibility Criteria**

Applicants must:

Be a VCSE organisation or social enterprise with a recognised legal status.

Operate or deliver services within Duffryn, or directly benefit Duffryn residents.

Demonstrate a clear track record in community engagement, support, training, or related social impact.

Be able to manage public funds responsibly, including:

having appropriate financial controls

producing annual accounts

complying with relevant safeguarding, GDPR and health & safety regulations

## Collaboration Rules

Organisations may collaborate to meet the minimum funding threshold (£1,000) or to deliver a stronger, broader project.

Collaborative bids must:

identify a lead partner responsible for finance and reporting

provide a clear partnership agreement

demonstrate how the partnership creates added value

show that all partners' activities align with the overall project outcomes

Collaborations are especially encouraged for larger bids (£30k+), and will be weighted positively where appropriate.

## Intervention Area 1: Safe Communities

Purpose

To improve safety, prevent antisocial behaviour, and enable children, young people, families and adults to feel confident using their community spaces. Community feedback highlighted significant concerns about drug activity, fires, e-bikes, vandalism, unsafe pathways, and lack of supervised spaces for young people. Projects under this intervention area should focus on prevention, positive engagement, and trusted relationships, rather than enforcement alone.

Outcomes

Projects must contribute to one or more of the following:

**SC1: Improved perceived and actual safety across Duffryn.**

**SC2: Reduction in antisocial behaviour through meaningful diversionary activity.**

**SC3: Increased positive, supervised and inclusive use of shared spaces.**

Eligible Activities (examples)

Detached and street-based youth work.

Evening, weekend or holiday sessions for young people (e.g., sports, arts, gaming clubs, dance, digital media).

Family safe-space sessions (e.g., Family Fridays, community nights).

Community mediation, restorative practice and confidence-building.

Supported or supervised use of local assets (astro, library, play spaces).

Community safety ambassador programmes, including peer mentors and adult guardians.

Projects that improve safety along key routes through visibility, community presence and engagement.

**Intervention Area 2: Healthy, Safe & Valued Environments**

Purpose

To address environmental conditions—such as litter, fly-tipping, fires, poor lighting, flooding, unsafe pathways and underused green spaces—which residents consistently identified as barriers to health, safety, pride, and mobility. This intervention area recognises that a high-quality environment is essential for wellbeing, play, learning and community participation.

Outcomes

Projects must contribute to one or more of the following:

**HE1: Increased access to safe, usable and welcoming spaces.**

**HE2: Improved community pride, care and ownership.**

**HE3: Increased positive and inclusive use of parks, woods and outdoor areas.**

Eligible Activities (examples)

Community-led clean-ups, stewardship groups or environmental volunteer teams.

Youth eco-leaders or environmental action programmes.

Nature-based wellbeing for families, children, young people and adults.

Forest school, outdoor learning, play-streets and park activation sessions.

Light-touch enabling works to improve access (path clearing, wayfinding, planting).

Creative re-use or activation of neglected spaces.

Campaigns and education on reducing fires, littering and vandalism.

Note: Large-scale capital works are not the focus of this programme; however, enabling or pre-development work linked to community outcomes may be considered.

**Intervention Area 3: Adults – Breaking the Cycle of Poverty**

Purpose

To improve confidence, wellbeing, financial stability, skills and capability for adults in the community. Resident feedback highlighted isolation, loneliness, mental health challenges, the need for warm hubs, accessible exercise, affordable food, social connection and opportunities to learn new skills.

Outcomes

Projects must contribute to:

**A1: Increased agency, confidence and wellbeing.**

**A2: Reduced isolation and increased social participation.**

**A3: Improved economic capability, including skills, training, volunteering or employment readiness.**

Eligible Activities (examples)

Wellbeing and mental health support, peer groups and befriending.

Social groups (coffee mornings, craft clubs, walking groups, men's/women's groups).

Warm hub or community café initiatives.

Digital skills, DIY/repair skills, budgeting and cooking programmes.

Volunteering pathways, employability support and confidence-building.

Parenting support, childcare-enabled training, or family learning.

Food pantry, community fridge or low-cost essentials support linked to capability-building.

**Intervention Area 4: Children & Young People – Preventing the Cycle of Poverty**

Purpose

To provide early, sustained and engaging support that strengthens learning, wellbeing, safety and opportunity for children and young people. Feedback from young residents emphasised the need for more clubs, homework help, safe play areas, coding/LEGO clubs, sport, creative arts, and spaces to have fun without fear of fires, rubbish or dangerous behaviour.

Outcomes

Projects may target one or more life stages:

**C1: Strong early development (0–4) – play, wellbeing, early learning.**

**C2: Foundational skills & inclusion (5–11) – literacy, numeracy, confidence, creative learning.**

**C3: Positive adolescent pathways (12–16) – engagement, aspiration, safe activities, wellbeing.**

**C4: Sustained engagement (16+) – transitions into employment, education, or training**.

Eligible Activities (examples)

Homework and literacy clubs; reading groups.

LEGO, coding, gaming, digital or creative media clubs.

Multi-sports, dance, gymnastics, outdoor play or youth fitness.

Mentoring, role-model programmes, peer leadership.

Music, art, crafts, performance or film projects.

After-school and weekend sessions for children and teens.

Work experience tasters, career workshops or youth enterprise programmes.

## Intervention Area 5: Community Infrastructure & Access

Purpose

To strengthen Duffryn's community infrastructure so residents can access help, information, services and activity in a way that is visible, local and trusted. Feedback

highlighted a strong need for a community hub, improved communication, and shared spaces that multiple VCSE partners can access.

Outcomes

Projects should aim to:

**CI1: Improve access to local services, information and support.**

**CI2: Increase coordination and visibility of community activity.**

**CI3: Strengthen community participation through shared spaces.**

Eligible Activities (examples)

Re-activating or enhancing local community hubs or shared delivery spaces.

Community café or social space development (including volunteer-led models).

Multi-agency outreach sessions hosted locally.

Community information points, notice boards, newsletters and communication systems.

VCSE partnership delivery that expands access for residents.

## APPLICANT EVALUATION METHOD

Evaluation process

The grant management process has been divided into two phases. The first phase involves evaluating the eligibility of the organisation, the suitability of the project, and other aspects are based on answers given to due diligence questions. This assessment is performed on the whatimpact.com platform by the whatimpact grant management team.

Applicants meeting the criteria will be forwarded to a special steering group dashboard (Grant Evaluation App = GEA), where the steering group will manage the evaluation, scoring, and potential requests for additional information. The steering group formed by members of the Newport City Council, and all stages of granting evaluation on this dashboard will record to ensure transparency and accountability.

Evaluation scoring

Each application presented to the steering group will be scored in a collaborative manner. The steering group members have access to the dashboard at all times to make a preliminary review of each applicant. During the steering group meetings, the group will give official scores based on five scoring criteria on a scale from 1-5. This leads to a

maximum score of 25 points. Each score will be supported by a qualitative comment explaining the value of the score.

The minimum requirement to be awarded a grant is 17 points, this will ensure you progress on to the next phase where a steering group will evaluate your proposal in more detail. If an applicant is close to reaching these score levels with an interesting project proposal, the steering group may offer feedback for the applicant to strengthen the

application. If it is expected that the quality of the answers might not reach the minimum levels due to disability, language barrier, or lack of knowledge of technical terminology, the whatimpact grant management team will support the candidate organisation to ensure a clear communication of their proposal.

The 5 evaluation categories are the following:

Scoring levels: 1 = Does not meet criteria 2 = Somewhat meets criteria 3 = Meets criteria 4 = Surpasses criteria 5 = Exceeds criteria

PROJECT SUCCESS AND OUTCOME EVALUATION METHOD

The NCC team will evaluate the success of the grant scheme by monitoring quarterly cumulative figures in terms of numbers of grants under £30,000 awarded for reporting to

Due Diligence

- Are your project beneficiaries all in Duffryn?
- Would this project happen without this grant?
- Do you guarantee that the project will be delivered between April 2026 – April 2027?
- Are you committed to delivering a Social Impact Report on whatimpact.com?
- Can you confirm that all funding will be used for the project and not for core costs?
- Do the anticipated costs accurately represent the work required for outcomes?
- How does this project meet the criteria of this grant?
- How will the project be sustained after this grant?
- What expenses are associated with this project?
- How are you monitoring the impact of your project?
- What are your organisation's funding sources?
- What new approach or innovation does this project bring?
- If this project is a pilot, how was the need verified?
- Is this project collaborative or standalone?
- Tell us about your organisation's capability to deliver this project.
- Has your organisation received Newport SPF funding before?
- Do you agree to deliver reporting on WhatImpact if funded?

# Cronfa Prosiect GNAO Dyffryn – Ymyriadau a Meini Prawf

Cronfa Prosiect GNAO Dyffryn – Meini Prawf y Grant

Mae'r rhaglen grant hon yn cefnogi ymrwymiad Cyngor Dinas Casnewydd i leihau tlodi, anghydraddoldeb ac allgáu drwy ymyrraeth gynnar, atal a gweithredu ar sail lleoedd.

Ym mis Hydref 2025, cymeradwyodd y Cabinet brosiect peilot Gadael Neb Ar Ôl gwerth £500,000 i gefnogi ardaloedd o'r ddinas sydd wedi colli allan ar waith adfywio a chyfleoedd blaenorol, gydag ystâd Dyffryn yn ward Parc Tredegar wedi'i dewis fel yr ardal beilot gyntaf oherwydd tystiolaeth o amddifadedd uchel.

Nod Cronfa Prosiect Gadael Neb Ar Ôl (GNAO) Dyffryn yw cefnogi mentrau cymdeithasol, cymunedol a gwirfoddol sy'n cyflawni ymyriadau effeithiol yn y gymuned sy'n lleihau tlodi, yn gwella sgiliau, yn creu llwybrau i gyflogaeth, ac yn gwella lles trigolion Dyffryn.

Mae cyllid ar gael ar gyfer prosiectau sy'n cyd-fynd ag egwyddorion GNAO, sy'n dangos budd cymunedol clir, ac sy'n dangos potensial cryf ar gyfer canlyniadau cadarnhaol hirdymor.

**Cyllid ar gael**

Isafswm y grant: £1,000

Uchafswm grant safonol: £30,000

Amgylchiadau eithriadol: Gellir ystyried ceisiadau dros £30,000 yn yr achosion canlynol:

mae tystiolaeth yn dangos bod angen sylweddol am y prosiect yn Nyffryn

mae'r cynnig yn cynnig canlyniadau effaith uchel na ellir eu cyflawni am gost is

mae'r ymgeisydd/ymgeiswyr yn gallu dangos capasiti sefydliadol cryf a/neu

mae'r prosiect yn cynnwys cydweithredu â phartneriaid eraill a chyrhaeddiad ehangach

Rhaid i ymgeiswyr sy'n gwneud cais am fwy na £30,000 amlinellu'n glir pam mae'r cyllid ychwanegol yn hanfodol a darparu cyfiawnhad manwl.

Gall sefydliadau wneud cais am hyd at £100,000 dim ond pan fo'r cais yn cael ei gyflwyno ar y cyd â phartneriaid VCSE eraill, neu lle gall y prosiect amlygu gwerth cymdeithasol eithriadol yn glir.

**Meini Prawf Cymhwystra**

Rhaid i ymgeiswyr:

Fod yn sefydliad Menter Gymdeithasol Gymunedol Wirfoddol neu fenter gymdeithasol sydd â statws cyfreithiol cydnabyddedig.

Gweithredu neu ddarparu gwasanaethau yn Nyffryn, neu fod o fudd uniongyrchol i drigolion Dyffryn.

Dangos profiad amlwg o gefnogi, hyfforddi ac ymgysylltu cymunedol, neu effaith gymdeithasol gysylltiedig.

Gallu rheoli arian cyhoeddus yn gyfrifol, gan gynnwys:

sicrhau mesurau rheoli ariannol priodol

cynhyrchu cyfrifon blynyddol

cydymffurfio â rheoliadau diogelu, GDPR ac iechyd a diogelwch perthnasol

**Rheolau Cydweithredu**

Gall sefydliadau gydweithio i gyrraedd y trothwy cyllid isaf (£1,000) neu i gyflawni prosiect cryfach ac ehangach.

Rhaid i geisiadau cydweithredol:

nodi partner arweiniol sy'n gyfrifol am gyllid ac adrodd

darparu cytundeb partneriaeth clir

dangos sut mae'r bartneriaeth yn creu gwerth ychwanegol

dangos bod gweithgareddau pob partner yn cyd-fynd â chanlyniadau cyffredinol y prosiect

Anogir cydweithrediadau yn arbennig ar gyfer cynigion mwy (£30k+), a byddant yn cael eu pwysoli'n gadarnhaol lle bo'n briodol.

**Maes Ymyrraeth 1: Cymunedau Diogel**

Diben

Gwella diogelwch, atal ymddygiad gwrthgymdeithasol, a galluogi plant, pobl ifanc, teuluoedd ac oedolion i deimlo'n hyderus wrth ddefnyddio eu mannau cymunedol. Tynnodd adborth cymunedol sylw at bryderon sylweddol am gyffuriau, tanau, e-feiciau, fandaliaeth, llwybrau anniogel, a diffyg mannau dan oruchwyliaeth i bobl ifanc. Dylai prosiectau yn y maes ymyrraeth hwn ganolbwyntio ar atal, ymgysylltu cadarnhaol a pherthnasoedd dibynadwy, yn hytrach na gorfodi yn unig.

Canlyniadau

Rhaid i brosiectau gyfrannu at un neu fwy o'r canlynol:

**SC1: Gwell diogelwch canfyddedig a gwirioneddol ar draws Dyffryn.**

**SC2: Lleihau ymddygiad gwrthgymdeithasol trwy weithgarwch dargyfeirio ystyrlon.**

**SC3: Mwy o ddefnydd cadarnhaol a chynhwysol o fannau a rennir, dan oruchwyliaeth.**

Gweithgareddau Cymwys (enghreifftiau)

Gwaith ieuenctid ar wahân ac ar y stryd.

Sesiynau gyda'r nos, ar y penwythnos neu yn ystod y gwyliau i bobl ifanc (e.e. chwaraeon, celfyddydau, gêmio, dawnsio, cyfryngau digidol).

Sesiynau mannau diogel i'r teulu (e.e. Dydd Gwener i'r Teulu, nosweithiau cymunedol).

Cyfryngu cymunedol, ymarfer adferol a magu hyder.

Defnyddio asedau lleol gyda chymorth neu dan oruchwyliaeth (astro, llyfrgell, mannau chwarae).

Rhaglenni llysgenhadon diogelwch cymunedol, gan gynnwys mentoriaid cyfoedion a gwarcheidwaid oedolion.

Prosiectau sy'n gwella diogelwch ar hyd llwybrau allweddol trwy weledедd, presenoldeb cymunedol ac ymgysylltiad.

**Maes Ymyrraeth 2: Amgylcheddau Iach a Diogel sy'n Cael eu Gwerthfawrogi**

Diben

Mynd i'r afael â materion amgylcheddol – fel sbwriel, tipio anghyfreithlon, tanau, diffyg goleuadau, llifogydd, llwybrau anniogel a mannau gwyrdd heb eu defnyddio'n ddigonol – a nodwyd yn gyson gan drigolion fel rhwystrau i iechyd, diogelwch, balchder a symudedd. Mae'r maes ymyrraeth hwn yn cydnabod bod amgylchedd o ansawdd uchel yn hanfodol ar gyfer llesiant, chwarae, dysgu a chyfranogiad cymunedol.

Canlyniadau

Rhaid i brosiectau gyfrannu at un neu fwy o'r canlynol:

**HE1: Mynediad gwell at fannau diogel, defnyddiadwy a chroesawgar.**

**HE2: Gwell balchder, gofal a pherchnogaeth gymunedol.**

**HE3: Mwy o ddefnydd cadarnhaol a chynhwysol o barciau, coedwigoedd ac ardaloedd awyr agored.**

Gweithgareddau Cymwys (enghreifftiau)

Digwyddiadau glanhau dan arweiniad y gymuned, grwpiau stiwardiaeth neu dimau amgylcheddol gwirfoddol.

Eco-arweinwyr ieuenctid neu raglenni gweithredu amgylcheddol.

Lles sy'n seiliedig ar natur i deuluoedd, plant, pobl ifanc ac oedolion.

Ysgol goedwig, dysgu awyr agored, strydoedd chwarae a sesiynau bywiogi parciau.

Gwaith galluogi cyffyrddiad ysgafn i wella mynediad (clirio llwybrau, canfod llwybrau, plannu).

Ailddefnyddio neu fywiogi mannau sydd wedi'u hesgeuluso mewn modd creadigol.

Ymgyrchoedd ac addysg ar atal tanau, sbwriel a fandaliaeth.

Sylwer: Nid gwaith cyfalaf ar raddfa fawr yw ffocws y rhaglen hon; fodd bynnag, gellir ystyried gwaith galluogi neu waith cyn-ddatblygu sy'n gysylltiedig â chanlyniadau cymunedol.

**Maes Ymyrraeth 3: Oedolion – Torri'r Cylch Tlodi**

Diben

Gwella hyder, lles, sefydlogrwydd ariannol, sgiliau a gallu oedolion yn y gymuned. Tynnodd adborth gan drigolion sylw at ynysu, unigrwydd, heriau iechyd meddwl, yr angen am ganolfannau cynnes, ymarfer corff hygyrch, bwyd fforddiadwy, cysylltedd cymdeithasol a chyfleoedd i ddysgu sgiliau newydd.

Canlyniadau

Rhaid i brosiectau gyfrannu at:

**A1: Mwy o allu, hyder a lles.**

**A2: Llai o ynysu a mwy o gyfranogiad cymdeithasol.**

**A3: Gwell gallu economaidd, gan gynnwys sgiliau, hyfforddiant, gwirfoddoli neu barodrwydd ar gyfer cyflogaeth.**

Gweithgareddau Cymwys (enghreifftiau)

Cymorth lles ac iechyd meddwl, grwpiau cyfoedion a chyfeillio.

Grwpiau cymdeithasol (boreau coffi, clybiau crefft, grwpiau cerdded, grwpiau dynion/menywod).

Mentrau canolfan cynnes neu gaffi cymunedol.

Rhaglenni sgiliau digidol, sgiliau DIY/atgyweirio, cyllidebu a choginio.

Llwybrau gwirfoddoli, cymorth cyflogadwyedd a magu hyder.

Cymorth rhianta, hyfforddiant wedi'i alluogi gan ofal plant, neu ddysgu fel teulu.

Pantri bwyd, oergell gymunedol neu gymorth â hanfodion cost isel sy'n gysylltiedig â meithrin gallu.

**Maes Ymyrraeth 4: Plant a Phobl Ifanc – Atal y Cylch Tlodi**

Diben

Darparu cefnogaeth gynnar, barhaus ac ysgogol sy'n cryfhau dysgu, lles, diogelwch a chyfleoedd ar gyfer plant a phobl ifanc. Pwysleisiodd adborth gan drigolion ifanc yr angen am fwy o glybiau, cymorth gyda gwaith cartref, mannau chwarae diogel, clybiau codio/LEGO, chwaraeon, celfyddydau creadigol, a lleoedd i gael hwyl heb ofni tanau, sbwriel nac ymddygiad peryglus.

Canlyniadau

Gall prosiectau dargedu un neu fwy o gyfnodau bywyd:

**C1: Datblygiad cynnar cryf (0–4) – chwarae, lles, dysgu cynnar.**

**C2: Sgiliau sylfaenol a chynhwysiant (5–11) – llythrennedd, rhifedd, hyder, dysgu creadigol.**

**C3: Llwybrau cadarnhaol i bobl yn eu harddegau (12–16) – ymgysylltiad, dyhead, gweithgareddau diogel, lles.**

**C4: Ymgysylltu parhaus (16+) – pontio i gyflogaeth, addysg neu hyfforddiant.**

Gweithgareddau Cymwys (enghreifftiau)

Clybiau gwaith cartref a llythrennedd; grwpiau darllen.

Clybiau LEGO, codio, gêmio, a chyfryngau digidol neu greadigol.

Aml-gamp, dawns, gymnasteg, chwarae awyr agored neu ffitrwydd i bobl ifanc.

Mentora, rhaglenni esiampl dda, arweinyddiaeth cyfoedion.

Prosiectau cerddoriaeth, celf, crefftau, perfformio neu ffilm.

Sesiynau ar ôl ysgol ac ar benwythnosau i blant a phobl ifanc.

Blas ar brofiad gwaith, gweithdai gyrfaoedd neu raglenni menter ieuenctid.

**Maes Ymyrraeth 5: Seilwaith Cymunedol a Mynediad**

Diben

Cryfhau seilwaith cymunedol Dyffryn fel y gall trigolion gael mynediad at gymorth, gwybodaeth, gwasanaethau a gweithgareddau mewn ffordd sy'n weladwy, yn lleol ac yn ddibynadwy. Tynnodd adborth sylw at angen cryf am hyb cymunedol, cyfathrebu gwell, a mannau a rennir y gall nifer o Fentrau Cymdeithasol Cymunedol Gwirfoddol partner eu cyrchu.

Canlyniadau

Dylai prosiectau anelu at:

**CI1: Gwella mynediad at wasanaethau lleol, gwybodaeth a chymorth.**

**CI2: Gwella cyd-drefniant a gwelededd gweithgareddau cymunedol.**

**CI3: Cryfhau cyfranogiad cymunedol trwy fannau a rennir.**

Gweithgareddau Cymwys (enghreifftiau)

Ail-actifadu neu wella hybiau cymunedol lleol neu fannau a rennir.

Datblygu caffi cymunedol neu ofod cymdeithasol (gan gynnwys modelau dan arweiniad gwirfoddolwyr).

Sesiynau allgymorth amlasiantaethol a gynhelir yn lleol.

Pwyntiau gwybodaeth cymunedol, hysbysfyrddau, cylchlythyrau a systemau cyfathrebu.

Darparu partneriaeth Mentrau Cymdeithasol Cymunedol Gwirfoddol sy'n ehangu mynediad i drigolion.

DULL GWERTHUSO YMGEISYDD

Y broses werthuso

Mae'r broses rheoli grantiau wedi'i rhannu'n ddau gam. Mae'r cam cyntaf yn cynnwys gwerthuso cymhwysedd y sefydliad ac addasrwydd y prosiect, ac mae agweddau eraill yn seiliedig ar atebion a roddir i gwestiynau diwydrwydd dyladwy. Mae'r asesiad hwn yn cael ei berfformio ar y platfform whatimpact.com gan dîm rheoli grantiau whatimpact.

Bydd ymgeiswyr sy'n bodloni'r meini prawf yn symud ymlaen i ddangosfwrdd grŵp llywio arbennig (Ap Gwerthuso Grant = GEA), lle bydd y grŵp llywio yn rheoli'r gwerthuso, sgorio, a cheisiadau posibl am wybodaeth ychwanegol. Bydd y grŵp llywio'n cael ei ffurfio gan aelodau o Gyngor Dinas Casnewydd, a chofnodir pob cam gwerthuso ar y dangosfwrdd hwn er mwyn sicrhau tryloywder ac atebolrwydd.

Sgôr gwerthuso

Bydd pob cais a gyflwynir i'r grŵp llywio yn cael ei sgorio mewn modd cydweithredol. Mae gan aelodau'r grŵp llywio fynediad i'r dangosfwrdd bob amser i gynnal adolygiad rhagarweiniol o bob ymgeisydd. Yn ystod cyfarfodydd y grŵp llywio, bydd y grŵp yn rhoi sgoriau swyddogol yn seiliedig ar bum maen prawf sgorio ar raddfa o 1-5. Mae hyn yn arwain at uchafswm sgôr o 25 pwynt. Bydd pob sgôr yn cael ei hategu gan sylw ansoddol sy'n esbonio gwerth y sgôr.

I gael grant, rhaid cael sgôr o 17 pwynt o leiaf. Bydd hyn yn sicrhau eich bod yn symud ymlaen i'r cam nesaf lle bydd grŵp llywio yn gwerthuso eich cynnig yn fanylach. Os yw ymgeisydd yn agos at gyrraedd y lefelau sgôr hyn gyda chynnig prosiect diddorol, gall y grŵp llywio gynnig adborth i'r ymgeisydd i gryfhau'r cais. Os disgwylir efallai na fydd ansawdd yr atebion yn cyrraedd y lefelau gofynnol oherwydd anabledd, rhwystr iaith, neu ddiffyg gwybodaeth am derminoleg dechnegol, bydd tîm rheoli grantiau whatimpact yn cefnogi'r sefydliad ymgeisiol i sicrhau y cyfathrebir eu cynnig yn glir.

Y 5 categori gwerthuso yw:

Lefelau sgorio: 1 = Ddim yn bodloni'r meini prawf 2 = Yn bodloni'r meini prawf rhywfaint 3 = Yn bodloni'r meini prawf 4 = Yn rhagori ar y meini prawf 5 = Yn rhagori ar y meini prawf yn hawdd

DULL GWERTHUSO LLWYDDIANT A CHANLYNIADAU PROSIECT

Bydd tîm CDC yn gwerthuso llwyddiant y cynllun grant drwy fonitro ffigurau cronnol chwarterol o ran nifer y grantiau o dan £30,000 a ddyfernir.

Diwydrwydd Dyladwy

- A yw buddiolwyr eich prosiect i gyd yn Nyffryn?
- A fyddai'r prosiect yn digwydd heb y grant hwn?
- Ydych chi'n gwarantu y bydd y prosiect yn cael ei gyflawni rhwng Ebrill 2026 ac Ebrill 2027?
- Ydych chi wedi ymrwymo i gyflwyno Adroddiad Effaith Gymdeithasol ar whatimpact.com?
- Allwch chi gadarnhau y bydd yr holl gyllid yn cael ei ddefnyddio ar gyfer y prosiect ac nid ar gyfer costau craidd?
- A yw'r costau a ragwelir yn cynrychioli'n gywir y gwaith sydd ei angen er mwyn sicrhau'r canlyniadau?
- Sut mae'r prosiect yn bodloni meini prawf y grant hwn?
- Sut bydd y prosiect yn cael ei gynnal ar ôl y grant hwn?
- Pa gostau sy'n gysylltiedig â'r project hwn?
- Sut ydych chi'n monitro effaith eich prosiect?
- Beth yw ffynonellau ariannu eich sefydliad?
- Pa ddull newydd neu arloesedd mae'r prosiect hwn yn ei gynnig?
- Os yw'r prosiect hwn yn brosiect peilot, sut cafodd yr angen ei wirio?
- A yw'r prosiect hwn yn gydweithredol neu'n annibynnol?
- Dywedwch wrthym am allu eich sefydliad i gyflawni'r prosiect hwn.
- A yw eich sefydliad wedi derbyn cyllid CFfG Casnewydd o'r blaen?
- Ydych chi'n cytuno i gyflwyno adroddiadau ar WhatImpact os ydych chi'n cael cyllid?